

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru
Twitter: [@SeneddCCLIL](https://twitter.com/SeneddCCLIL)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Adroddiad Etifeddiaeth
y Pedwerydd Cynulliad**

Mawrth 2016

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Aelodau'r Pwyllgor:

Aelod	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Christine Chapman AC (Cadeirydd)	Llafur Cymru	Cwm Cynon
Peter Black AC	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gorllewin De Cymru
Alun Davies AC	Llafur Cymru	Blaenau Gwent
Janet Finch-Saunders AC	Y Ceidwadwyr Cymreig	Aberconwy
Mike Hedges AC	Llafur Cymru	Dwyrain Abertawe
Mark Isherwood AC	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gogledd Cymru
Bethan Jenkins AC	Plaid Cymru	Gorllewin De Cymru
Gwyn R Price AC	Llafur Cymru	Islwyn
Gwenda Thomas AC	Llafur Cymru	Castell-nedd
Lindsay Whittle AC	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru

Bu John Griffiths AC (Llafur Cymru, Dwyrain Casnewydd) yn bresennol fel dirprwy i Gwenda Thomas AC rhwng mis Chwefror 2015 a mis Mawrth 2016.

Aelodau blaenorol y Pwyllgor:

Aelod	Plaid	Etholaeth neu Ranbarth
Leighton Andrews AC	Llafur Cymru	Rhondda
Jocelyn Davies AC	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru
William Graham AC	Y Ceidwadwyr Cymreig	Dwyrain De Cymru
Ann Jones AC	Llafur Cymru	Dyffryn Clwyd
Jenny Rathbone AC	Llafur Cymru	Canol Caerdydd
Ken Skates AC	Llafur Cymru	De Clwyd
Rhodri Glyn Thomas AC	Plaid Cymru	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Joyce Watson AC	Llafur Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cylch gwaith y Pwyllgor

Rôl y Pwyllgor yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn y meysydd polisi canlynol:

- Tai a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thai
- Digartrefedd a chynghor ynghylch tai
- Tai fforddiadwy (gan gynnwys ansawdd)
- Llywodraeth leol a chymunedau
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gwella gwasanaethau cyhoeddus
- Cyfle cyfartal
- Trais domestig
- Lloches, mewnfudo a gweithwyr mudol
- Cydlyniant cymunedol
- Diogelwch cymunedol
- Sipsiwn a theithwyr
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Treftadaeth Cymru a'r amgylchedd ac adeiladau hanesyddol
- Amgueddfeydd, llyfrgelloedd cyhoeddus ac archifau
- Y celfyddydau
- Chwaraeon, gweithgarwch corfforol a hamdden egnïol
- Y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Argyfyngau sifil
- Darlledu
- Materion polisi sy'n berthnasol i'r UE

*Ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad, roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys twristiaeth hefyd. Cafodd hyn ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn 2014, yn dilyn **adolygiad** Pwyllgor Busnes y Cynulliad o gylchoedd gwaith y pwyllgorau.*

Cynnwys

Yr hyn a wnaeth y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad	1
Cyflwyniad.....	2
Gweithgareddau'r Pedwerydd Cynulliad.....	3
Crffu ar bolisi	3
Crffu deddfwriaethol	4
Crffu ariannol	4
Tai	6
Y cyfryngau, diwylliant a chwaraeon.....	10
Cymunedau a Chydraddoldeb	16
Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.....	20
Y Gymraeg	22
Edrych tuag at y Pumed Cynulliad	23
Yr ymchwiliadau nesaf.....	23

 **18**
YMCHWILIAD
POLISI

CYHOEDDWDYD
37
ADRODDIAD
PWYLLGOR

 **10**
BIL WEDI'U HYSTYRIED
GAN Y PWYLLGOR



TRAFODWYD 11 MEMORANDA
CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

CRAFFWYD CYN DEDDFU
AR UN BIL DRAFFT

SEFYDLWYD **2** GRŴP GORCHWYL A GORFFEN

DADANSODDIAD O WEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR



- DEDDFWRIAETH **66%**
- POLISI **25%**
- CRAFFU ARIANNOL **6%**
- BUSNES ARALL **3%**

(GAN GYNNWYS YSTYRIED MEMORANDA
CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL)

YMGYSYLLTU



CYFARFODYDD
CYHOEDDUS
MEIC AGORED



DIGWYDDIAD I
RANDDEILIAID



GRWPIAU FFOCWS



SGYRSIAU
AR Y WE



YMWELIADAU

Cyflwyniad

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn eang iawn. Mae'n cwmpasu nifer fawr o feysydd polisi arwyddocaol, gan gynnwys tai a digartrefedd, llywodraeth leol, gwella gwasanaethau cyhoeddus, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon, y Gymraeg, cyfle cyfartal a darlledu. Wrth gynllunio ein rhaglen waith ar gyfer y Cynulliad hwn, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein dewis o ymchwiliadau polisi yn cwmpasu ein cylch gwaith. Roeddem hefyd yn sylweddoli bod angen ymateb i faterion o ddiddordeb cyhoeddus wrth iddynt godi.

O ran ein gwaith deddfwriaethol, bu'r Pwyllgor yn gyfrifol am drafod 10 Bil Cynulliad; tua 30% o ddeddfwriaeth sylfaenol y Pedwerydd Cynulliad. Yn ail hanner y Cynulliad hwn y bu trwch y gwaith; cyfeiriwyd chwe Bil atom ers diwedd 2013.

Er mwyn llywio ein hymchwiliadau polisi a deddfwriaeth, rydym wedi ceisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu. I wneud hynny, rydym wedi defnyddio amryw ddulliau, gan gynnwys grwpiau ffocws, arolygon, digwyddiadau i randdeiliaid, cyfarfodydd cyhoeddus a sgysiau ar y we. Rydym hefyd wedi elwa ar gymorth cynghorydd arbenigol. Heblaw'r adroddiadau arferol, rydym hefyd wedi creu nifer o wahanol fathau o ddogfennau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Roedd y rheini'n cynnwys crynodebau gweithredol, adroddiadau fideo 60-eiliad ac, yn fwy diweddar, adroddiad 'cipolwg' ar gyfer dyfeisiau symudol.

Yn ystod y Cynulliad hwn, cawsom lu o dystiolaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan unigolion a sefydliadau. Mawr yw ein diolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at ein gwaith.

Bwriedir i'r adroddiad hwn adlewyrchu gwaith y Pwyllgor yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Nid dadansoddiad mohono o bob ymchwiliad a wnaed gennym, ond yn hytrach manylion detholiad o ymchwiliadau polisi a deddfwriaeth o bob rhan o'n cylch gwaith. Rydym wedi'u trefnu o dan y penawdau canlynol:

- Tai;
- Y cyfryngau, diwylliant a chwaraeon;
- Cymunedau a chydraddoldeb;
- Llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus;
- Y Gymraeg.

Cyfeiriwn hefyd at nifer o feysydd y gallai ein pwyllgor olynol fod yn dymuno eu trafod yn y Cynulliad nesaf.

Gweithgareddau'r Pedwerydd Cynulliad

Yn fras, gellir trefnu gwaith y Pwyllgor yn dri chategori — craffu ar bolisi, craffu deddfwriaethol a chraffu ariannol.

Craffu ar bolisi

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd 18 ymchwiliad polisi, yn ogystal â nifer o ymchwiliadau ychwanegol. Rhestrir y rheini isod o dan eu maes pwnc. Cynhaliwyd hefyd nifer o sesiynau craffu cyffredinol gyda Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion yr oedd eu portffolios o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Tai

- Y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru ar draws pob deiliadaeth (Mai 2012)
- Addasiadau yn y cartref (Gorffennaf 2013)
- Rhwystrau i adeiladu cartrefi yng Nghymru (Rhagfyr 2013)
- Cod Ymarfer drafft ar gyfer Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod Tai yn y Sector Preifat ar Rent (Mehefin 2015)

Y Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon

- Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru (Mai 2012)
- Uwch Gynghrair Cymru (Tachwedd 2012)
- Cyfranogiad yn y Celfyddydau yng Nghymru (Ionawr 2013)
- Polisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (Mawrth 2013)
- Lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon (Mawrth 2014)
- Adolygiad o Siarter y BBC (Mawrth 2016)

Cymunedau a Chydraddoldeb

- Diogelwch Cymunedol yng Nghymru (Rhagfyr 2011)
- Aflonyddwch ar sail anabledd yng Nghymru (Rhagfyr 2011)
- Ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2012)
- Dyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol (Awst 2013)
- Masnachu mewn pobl (Mehefin 2014)
- Tlodi yng Nghymru –Tlodi ac Anghydraddoldeb (Hydref 2015)
- Strategaeth Cynhwysiant Ariannol newydd Llywodraeth Cymru (Ionawr 2016)
- Tlodi yng Nghymru: Dulliau o drechu tlodi yn y gymuned (Mawrth 2016)

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

- Cynnydd o ran cydweithio â llywodraeth lleol (Rhagfyr 2013)
- Llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru (Gorffennaf 2014)
- Craffu ar adroddiad blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Y Gymraeg

- Craffu ar adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg
- Craffu ar waith Prif Weinidog Cymru a'i gyfrifoldebau dros y Gymraeg

Craffu deddfwriaethol

Yn ystod y Cynulliad hwn, rydym wedi craffu ar 10 Bil, a restrir isod o dan eu meysydd pwnc. Cyflwynwyd saith o'r Biliau hynny gan Lywodraeth Cymru, cafodd dau eu cyflwyno gan Aelodau unigol o'r Cynulliad, ac roedd un yn gyfrifoldeb Comisiwn y Cynulliad.

Tai

- Y Bil Cartrefi Symudol (Cymru)
- Y Bil Tai (Cymru)
- Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)
- Y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru)

Y Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon

- Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Cymunedau a Chydraddoldeb

- Y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

- Y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)
- Y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)
- Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Y Gymraeg

- Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)

Rydym hefyd wedi trafod 11 memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac wedi craffu cyn deddfu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft.

Craffu ariannol

Rydym wedi archwilio gwariant Llywodraeth Cymru yn unol â'n cylch gwaith, fel rhan o'n gwaith ymchwil ar bolisi a deddfwriaeth, yn ogystal ag mewn sesiynau craffu ar wahân ar y gyllideb a chyllid.

Ymgysylltu

Ym mis Mehefin 2013, cynhaliwyd digwyddiad i siarad â phobl am y problemau a gawsant wrth geisio cael addasiadau i'w cartrefi. Dyma a ddywedwyd wrthym:

- dylai pobl fod yn ganolog i'r system. Dylai fod ganddynt fwy o ran yn y broses - dylai fod ganddynt lais i ddweud beth sydd ei eisiau arnynt.
 - dylai fod cofrestr o gartrefi wedi'u haddasu, rhag gorfod tynnu addasiadau a'u rhoi mewn eiddo newydd pan fydd pobl yn symud ymlaen.
 - dylid cael asesiadau dilynol i gadarnhau a gafodd y gwaith ei wneud yn briodol ac o'r safon gywir.
 - dylid cael gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau (er enghraifft awdurdodau lleol, ysbytai a gweithwyr cymdeithasol) i sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg ac o fewn cyfnod rhesymol.
-



Ymchwiliad polisi: Addasiadau yn y Cartref

Diben yr ymchwiliad

Tua diwedd 2012, dechreuwyd ymchwiliad yn ymwneud ag addasiadau yn y cartref. Gwaith dilynol oedd hwn i waith a wnaed eisoes ar wasanaethau addasu cartrefi yn y Trydydd Cynulliad gan y pwyllgor â'n rhagflaenodd.

Roedden yn awyddus i drafod:

- pam bod yr amser a dreulir yn dosbarthu cymhorthion ac addasiadau yn amrywio'n sylweddol, a
- beth ragor sydd angen ei wneud i wella gwasanaethau addasu cartrefi yng Nghymru.

Ymgysylltu

Er mwyn llywio ein gwaith, buom yn siarad â defnyddwyr gwasanaethau, i'n helpu i ddeall y materion a oedd yn wirioneddol bwysig iddynt. Yn oedd yn glir bod addasiadau yn y cartref yn achubiaeth i lawer o bobl ac yn gyfle iddynt fyw bywyd llawn.

Canfyddiadau

Cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Gorffennaf 2013, a ganfu nad oedd y cynnydd wedi bod yn ddigon cyflym nac yn ddigon cyson ledled Cymru. Yr oedd ein hadroddiad yn cynnwys 23 argymhelliaid i'r Gweinidog, a'u hamcan oedd sbarduno gwelliannau i'r system addasiadau yn y cartref.

Yn yr ymateb i'n hadroddiad, dywedodd y Gweinidog wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud adolygiad o wasanaethau addasu cartrefi i fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd gennym.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Ym mis Medi 2015, gofynnwyd i'r Gweinidog am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu ein hargymhellion. Dywedodd wrthym fod y gwasanaethau addasu wedi gwella rywfaint ond bod pobl yn dal i aros yn rhy hir am addasiadau, a bod gwahaniaeth sylweddol yn amseroedd aros yr awdurdodau. Roedd y Gweinidog wedi sefydlu tasglu i ystyried sut y gellid gwella'r system addasiadau. Roedd y tasglu i gyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2016.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i addasu cartrefi yn hirsefydlog, ac ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Credwn y dylai ein pwyllgor olynol barhau i drafod y mater hwn â Llywodraeth Cymru.

Ymgysylltu

Ar 18 Mawrth, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid i siarad â thenantiaid am eu profiadau o rentu tai gan gynghorau, cymdeithasau tai a landlordiaid preifat, ac i gael gwybod eu barn am gynigion Llywodraeth Cymru.

Hefyd, penodwyd cynghorydd arbenigol i'n helpu i drafod y maes pwnc cymhleth hwn.



Ymchwiliad i ddeddfwriaeth: Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Diben yr ymchwiliad

Cyflwynwyd y Bil Rhenti Cartrefi (Cymru) ym mis Chwefror 2015 gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Amcan y Bil oedd diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â thai ar rent yng Nghymru, ac roedd yn cyflwyno dau fath newydd o gontract meddiannaeth yn lle'r rhan fwyaf o fathau presennol o denantiaeth a chytundebau trwydded.

Canfyddiadau

Ar sail y dystiolaeth a gawsom, roedd tri maes a achosai gryn bryder inni:

- cyflwr yr eiddo ar rent;
- y cynigion i alluogi pobl ifanc 16 neu 17 oed i gael contract meddiannaeth; ac
- y cynigion a oedd yn caniatáu i landlordiaid wahardd rhywun sydd â chontract safonol a gefnogir o'i gartref am hyd at 48 awr heb orchymyn llys.

Cafodd y pryderon hyn eu hadlewyrchu yn ein hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Yng ngoleuni'r pryderon a fynegwyd, cyflwynodd y Gweinidog welliant yng Nghyfnod 3 i godi'r oedran isaf y gallai unigolyn fod â chontract meddiannaeth o 16 i 18.

Ni dderbyniwyd ein hargymhelliad i gael gwared ar y darpariaethau gwahardd dros dro mewn contractau safonol a gefnogir. Fodd bynnag, cyflwynodd y Gweinidog welliant a oedd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau y mae'n rhaid i landlordiaid roi sylw iddynt wrth benderfynu gwahardd deiliad contract dros dro.

Hefyd, cryfhodd y Gweinidog y darpariaethau sy'n ymwneud ag addasrwydd tai i bobl fyw ynddynt, gan osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ragnodi materion ac amgylchiadau y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu a yw tŷ yn addas i bobl fyw ynddo.

Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Gan fod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi diwygio'n sylweddol y gyfraith sy'n gymwys i gartrefi ar rent yng Nghymru, credwn y dylai'r pwyllgor olynol graffu ar y modd y caiff y Ddeddf ei gweithredu, effaith y Ddeddf, a'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio ohoni. Dylai ystyried, yn enwedig, y darpariaethau gwahardd dros dro o fewn contractau safonol a gefnogir a'r darpariaethau sy'n ymwneud ag addasrwydd tai i bobl fyw ynddynt.

Ymgysylltu

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad, fe wnaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig;
- cynnal nifer o sesiynau tystiolaeth lafar â rhanddeiliaid; a
- chynnal trafodaethau ar-lein â blogwyr a chynrychiolwyr gwefannau newyddion hyperleol.

Roedd y gwaith hwn yn sail i'n canfyddiadau ac fe helpodd wrth lunio ein hargymhellion i'r Gweinidog.



Y Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon

Ymchwiliad polisi: Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru

Diben yr ymchwiliad

Ym mis Medi 2011, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gennym i edrych ar y rhagolygon ar gyfer y gwahanol gyfryngau yng Nghymru.

Canfyddiadau

Roedd y prif argymhellion a'r negeseuon yn ein hadroddiad yn cynnwys y canlynol:

- yr angen am fforwm annibynnol i gynghori Llywodraeth Cymru ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau, ac adolygu'n barhaus y mater o ddatganoli darlledu;
- yr angen i Lywodraeth Cymru gryfhau ei dulliau o ymdrin â materion darlledu a'i hymwneud â sefydliadau'r cyfryngau; ac
- yr angen i Lywodraeth Cymru gryfhau'r cysylltiadau ar draws adrannau a chyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â pholisi yn y maes hwn.

Yn yr ymateb i'r adroddiad, cydnabu'r Gweinidog ein pryderon am y diffyg lluosogrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru ond dywedodd fod y camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy, i bob pwrpas, ar y gweill.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Ym mis Medi 2012, sefydlodd Prif Weinidog Cymru Banel Cynghori ar Ddarlledu i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch diwallu anghenion Cymru a'i phobl o ran darlledu cyhoeddus. Roedd llawer o ganfyddiadau'r Panel yn adleisio canfyddiadau ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Argymhellodd y Panel y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cyngor Cyfryngau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i arwain y ddadl ar ddyfodol darlledu cyhoeddus yng Nghymru ac i gynrychioli anghenion Cymru ar lefel y DU. Nid yw hyn wedi cael ei wneud hyd yma.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau tystiolaeth dilynol gydag Ofcom a darlledwyr i drafod eu cyfrifoldebau a'u hymrwymadau i Gymru.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Yn fwy diweddar, rydym wedi cynnal ymchwiliad i adolygiad Llywodraeth y DU o Siarter y BBC a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau'r BBC yng Nghymru. Gwnaethom nifer o argymhellion yn ein hadroddiad, gan gynnwys y canlynol:

- y dylid cryfhau'r datganiad ynglŷn â dibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn gynrychioli ac yn gwasanaethu anghenion y Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau;
- y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar fyrder i sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru, i adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru;
- y dylai'r Pumed Cynulliad sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu i gryfhau'r trefniadau atebolrwydd rhwng y Cynulliad a'r cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru.

Chwaraeon

“Ein nod oedd ystyried sut y caiff cyfleoedd eu creu i annog grwpiau gwahanol o bobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn chwaraeon. Roedd y rhwystrau sy’n atal rhai grwpiau rhag gwneud hynny yr un mor bwysig. Dylai’r cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon fod ar gael i bawb, beth bynnag yw eu hoedran neu eu gallu.”

Mae angen inni sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd ar gael, i’r rhai sydd am gymryd rhan mewn chwaraeon mewn ffordd ffurfiol neu gystadleuol, yn ogystal â’r rhai y mae’n well ganddynt weithgareddau hamdden.”

Christine Chapman AC, Cadeirydd



Ymchwiliad polisi: Lefelau cyfranogiad mewn Chwaraeon

Diben yr ymchwiliad

Roedd ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon er mwyn cynyddu gweithgarwch corfforol yn un o brif nodau Llywodraeth Cymru yn ei *Rhaglen Lywodraethu*. Penderfynwyd felly, ym mis Ebrill 2013, i ystyried i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, a beth yw'r cyfleoedd a'r rhwystrau i wahanol grwpiau o bobl.

Canfyddiadau

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Mawrth 2014, a gwnaethom nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- asesu effaith y gostyngiadau i gyllidebau awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau chwaraeon a hamdden ar fynediad a fforddiadwyedd;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi cyfleoedd i gynyddu a gwella mynediad at gyfleusterau hamdden ledled Cymru; a
- sicrhau bod rhagor o waith yn cael ei wneud i nodi ffyrdd o annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon. Dylai hyn gynnwys gwaith ymchwil i'r mathau o chwaraeon neu weithgareddau sy'n apelio i ferched yn benodol, a'r ffactorau sy'n effeithio ar eu cyfranogiad.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Ym mis Gorffennaf 2013, dywedodd y Gweinidog ei fod yn derbyn bod angen gwneud gwaith pellach yn Llywodraeth Cymru a'r sector chwaraeon i gyflawni'r gwelliannau y mae'r Llywodraeth am eu cael. I'r perwyl hwnnw, sefydlwyd Grŵp Gweithredol Gweithgarwch Corfforol gan Lywodraeth Cymru i osod cyfeiriad newydd i gynyddu'r lefelau o weithgarwch corfforol.

Ym mis Medi 2015, dywedodd y Gweinidog fod y Grŵp yn datblygu cynllun gweithgarwch corfforol ar gyfer Cymru gyfan. Disgwyliai y byddai'r cynllun yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2015 (ar adeg ysgrifennu hwn nid oedd y cynllun ar gael).

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun benthyciadau di-log o £5 miliwn, a fyddai ar gael i awdurdodau lleol i wella cyfleusterau chwaraeon a hamdden lleol ledled Cymru ac i annog rhagor o bobl i fod yn egniol yn gorfforol. Dywedodd hefyd fod Chwaraeon Cymru wedi'i gomisiynu i edrych ar yr amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon yng Nghymru gyfan, a'u bod wrthi'n cynnal ymarfer mapio i edrych ar yr hyn sy'n ateb y diben, yr hyn y mae angen buddsoddi ynddo, a'r cyfleusterau chwaraeon newydd a oedd ar gael, a'r rhai sy'n amlygu.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae llawer o bobl yn cytuno bod gweithgarwch corfforol yn bwysig er mwyn cadw'n iach. Gwyddys am beryglon gordewdra a diffyg ymarfer corff a goblygiadau hynny ar gyfer ein lles, ac mae'r problemau hyn yn amlwg iawn yng Nghymru a thu hwnt. Dangoswyd hefyd fod pobl ifanc sydd â ffordd o fyw afiach yn fwy tebygol o gael eu heithrio o weithgareddau cymdeithasol ac addysg. Credwn y dylai ein pwyllgor olynol gadw golwg ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol.

Amgylchedd Hanesyddol

"Mae'n hollbwysig bod ein treftadaeth ddiwylliannol a phensaernïol yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn credu bod potensial i Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) gyfrannu at y nod hwnnw.

Fodd bynnag, clywyd tystiolaeth gymhellgar am rôl enwau lleoedd hanesyddol a'r wybodaeth unigryw y maen nhw'n ei chynnig ynghylch treftadaeth Cymru. Roedd yn syndod clywed nad oes gan enwau sydd wedi bodoli ers canrifoedd unrhyw warchodaeth statudol ac y gellid eu newid yn hawdd."

Christine Chapman AC, Cadeirydd



Ymchwiliad i ddeddfwriaeth: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Diben yr ymchwiliad

Ym mis Mai 2015, aethom ati i graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynwyd gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Yn gyffredinol, nod y Bil oedd gwella'r trefniadau ar gyfer diogelu adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, a sefydlu Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru (y Panel).

Ymgysylltu

Yn ystod ein hymchwiliad, buom yn arbrofi gyda chynhyrchu clip fideo 60-eiliad o bob cyfarfod, gan dynnu sylw at un neges allweddol gan bob tyst. Cyhoeddwyd y clipiau hyn ar ein tudalennau gwe a chawsant eu rhannu ar Twitter.

Canfyddiadau

Cawsom dystiolaeth ar y Bil a chyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Hydref 2015. Roedd ein hadroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion er mwyn cryfhau darpariaethau'r Bil a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Roedd y prif argymhellion yn cynnwys:

- y dylai'r Dirprwy Weinidog ystyried y posibilrwydd o godi cosbau ariannol ar berchnogion sy'n gadael i'w hadeiladau rhestredig ddadfeilio'n fwriadol;
- y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol; a
- y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i'w gwneud ofynnol i'r Panel lunio adroddiad.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Yn ystod cyfnodau diwygio'r Bil, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog welliannau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Cytunwyd ar y gwelliannau hyn, ynghyd â nifer o welliannau eraill, gan weithredu ein hargymhellion ar gosbau ariannol ac o ran sicrhau adroddiadau gan y Panel.

Disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Yn ystod ein hystyriaeth o'r Bil, buom yn trafod a fyddai un Bil cydgrynhoi, sengl, sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol wedi bod yn well na Bil a oedd yn diwygio'r gyfraith bresennol yn y maes hwn.

Yn ein hadroddiad, roeddem yn cydnabod na fyddai Bil cydgrynhoi yn ymarferol, o ystyried y Cyfnod oedd y Bil ynddo ar ei daith drwy'r Cynulliad, a'r amser cyfyngedig a oedd ar gael cyn y diddymiad. Fodd bynnag, credwn fod hwn yn fater y gallai ein pwyllgor olynol ei ystyried, ar adeg briodol yn y dyfodol, fel rhan o waith craffu ar ôl deddfu ehangach.

Ymgysylltu

Fel rhan o elfen gyntaf ein hymchwiliad, cynhaliwyd grwpiau ffocws gydag unigolion o wahanol sefydliadau ledled Cymru a oedd yn ymwneud â thlodi.

Y themâu i'w trafod ar y diwrnod oedd:

- pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau eraill y Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd;
- effeithiau tlodi, yn enwedig amddifadedd a thlodi eithafol, ar grwpiau gwahanol;
- sut y mae deddfwriaeth, polisïau a chyllidebau sydd wedi'u targedu at drechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb yn cael eu cydgysylltu a'u blaenoriaethu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Buom hefyd yn ymweld â nifer o brosiectau ledled Cymru ac yn siarad â phobl am effeithiau tlodi, yn enwedig amddifadedd a thlodi eithafol, ar grwpiau gwahanol.



Cymunedau a Chydraddoldeb

Ymchwiliad polisi: Tlodi yng Nghymru

Diben yr ymchwiliad

Yn 2014, aethpwyd ati i gynnal ymchwiliad i dlodi yng Nghymru. Roedd yr ymchwiliad wedi'i rannu'n bedair elfen:

- tlodi ac anghydraddoldeb;
- dulliau o drechu tlodi yn y gymuned;
- effaith diwygio lles ar dlodi yng Nghymru;
- tlodi mewn gwaith.

Cawsom dystiolaeth ar y ddwy elfen gyntaf, a holwyd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am waith Llywodraeth Cymru hyd yma.

Canfyddiadau

Rydym wedi llunio adroddiad ar yr ymchwiliad cyntaf ac wedi gohebu â'r Gweinidog mewn perthynas â'r ail. Daeth nifer o **themâu allweddol** i'r amlwg o'r dystiolaeth ar y ddwy elfen:

- bu diffyg cynnydd cyffredinol gan Lywodraeth Cymru o ran lleihau tlodi yng Nghymru. Mae hyn er gwaethaf ymrwymiad a buddsoddiad hirdymor. **Mae dull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi yn ymwneud â chanlyniadau tlodi, yn hytrach na'i achosion;**
- mae rhaglenni lleihau tlodi Llywodraeth Cymru wedi'u hanelu'n bennaf at leoedd penodol, ac mae rhagdybiaeth fod y boblogaeth yn yr ardaloedd hynny yn un grŵp penodol;
- mae angen i Lywodraeth Cymru gael **gwell data** am bobl sy'n byw mewn tlodi fel y gall dargedu ei hadnoddau at y rhai sydd â'r angen mwyaf;
- **mae angen gwella'n ddybryd** y broses o **fonitro a gwerthuso** effaith a chynnydd y rhaglenni tlodi. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud dadansoddiad trwyadl o effeithiolrwydd ei rhaglenni, yn enwedig gan fod lefelau tlodi wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth yng Nghymru yn y 25 mlynedd diwethaf. Mae angen hefyd sicrhau bod ei thargedau yn briodol a bod data ar gael i fesur cynnydd yn erbyn y targedau hynny. Byddai mantais mewn gwneud mwy o ddefnydd o **atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau** i ddangos, er enghraifft, a yw ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cyflawni'n well yn nhermau economaidd-gymdeithasol o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn rhai Cymunedau'n Gyntaf;
- mae angen sicrhau **cysylltiad cryfach rhwng polisi economaidd a threchu tlodi**, ynghyd â gwell dealltwriaeth o'r sgiliau isel yn y farchnad lafur;
- mae'r Gweinidog wedi sefydlu nifer o **grwpiau cynghori**, sy'n cynnwys gwahanol bobl, at ddibenion gwahanol. Efallai y byddai'n werth **symleiddio'r trefniadau hyn** yn un ffynhonnell o gyngor awdurdodol;
- mae'r seilwaith sydd ar gael i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru yn gymharol dda, ond mae **diffyg dealltwriaeth am dlodi a sut y mae'n effeithio ar bobl.**

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae tlodi yng Nghymru wedi bod - ac mae'n dal i fod - yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu Llywodraethau olynol Cymru. Mae ein gwaith yn y Cynulliad hwn wedi dangos bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi parhau i gael trafferth â'r mater hwn, o ran ei dealltwriaeth o dlodi ac o ran sut i fynd i'r afael â'i achosion yn effeithiol.

Credwn y dylai'r archwiliad parhaus o ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru fod yn flaenoriaeth allweddol i'n pwyllgor olynol.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau sy'n ymwneud â chraffu ar ddeddfwriaeth y Cynulliad, nid oedd yn bosibl inni ystyried dwy elfen derfynol yr ymchwiliad i dlodi, sef diwygio lles a thlodi mewn gwaith. Credwn y dylai'r pwyllgor olynol fynd i'r afael â'r rhain yn y Pumed Cynulliad.

Ymchwiliad i ddeddfwriaeth: Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Diben yr ymchwiliad

Ym mis Mehefin 2014, aethom ati i graffu ar y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Diben y Bil oedd gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a diogelu pobl oedd yn dioddef cam-drin a thrais o'r fath, a gwella'r cymorth ar eu cyfer. Roedd hefyd yn ei gwneud ofynnol i Weinidogion Cymru benodi Cynghorydd Gweinidogol i gynnig cyngor ar y materion hyn.

Ymgysylltu

Cyn inni fynd ati i ystyried y Bil yn ffurfiol, cynhaliwyd digwyddiad rhanddeiliaid gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector i ymgysylltu â'r maes a'r materion sy'n wynebu'r sector wrth fynd i'r afael â'r mathau hyn o gam-drin a thrais. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i gynrychiolwyr siarad â ni yn uniongyrchol mewn lleoliad anffurfiol ac i'n helpu i nodi, ar gam cynnar yn y broses, faterion a oedd yn debygol o gael eu codi yn ystod y broses graffu.

Canfyddiadau

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Tachwedd 2014, ac roedd yn cynnwys 12 argymhelliad i'r Gweinidog. Arweiniodd pedwar ohonynt at newidiadau i'r Bil yn ystod y cyfnodau diwygio.

Ein hargymhelliad:

Bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i gyfeirio at 'Drais yn erbyn Menywod', yn hytrach nag at 'Drais ar sail Rhywedd'.

Canlyniad:

Cyflwynodd y Gweinidog welliant i gyflwyno adran newydd i gyfeirio'n benodol at drais yn erbyn menywod a merched ac i ddiwygio'r teitl byr i gyfeirio at 'Drais yn erbyn Menywod'.

Ein hargymhelliad:

Bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer rhaglenni addysg gorfodol, ysgol gyfan, sy'n briodol i oedran, ar gydberthnasau iach.

Canlyniad:

Er na chafodd yr argymhelliad ei dderbyn yn llwyr, diwygiwyd y Bil i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio adroddiad yn dangos sut y maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn eu sefydliadau addysg, gan gynnwys mewn ysgolion.

Ein hargymhelliad:

Bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i ddarparu ar gyfer gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i ymgynghori â darparwyr gwasanaeth, yr heddlu, dioddefwyr ac unrhyw grwpiau perthnasol eraill wrth ddylunio'r strategaethau cenedlaethol a lleol.

Canlyniad:

Cyflwynodd y Gweinidog welliannau i gynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori ar y strategaethau cenedlaethol a lleol.

Ein hargymhelliad:

Bod y Gweinidog yn diwygio'r Bil i newid teitl rôl y Cynghorydd Gweinidogol er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa hyd braich hon.

Canlyniad:

Cyflwynodd y Gweinidog gyfres o welliannau i newid enw'r Cynghorydd Gweinidogol yn Gynghorydd Cenedlaethol.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015.

Ym mis Medi 2015, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Cynghorydd Cenedlaethol wedi'i benodi a bod bron 100 o eiriolwyr trais domestig annibynnol yn cael eu hyfforddi. Dywedodd wrthym hefyd y byddai'r Strategaeth Genedlaethol gyntaf yn cael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2016, yn unol â'r terfyn amser a bennir yn y Ddeddf.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

O ystyried arwyddocâd y ddeddfwriaeth hon, credwn y dylai ein holynydd adolygu hynt y gwaith o weithredu'r darpariaethau yn y Ddeddf fel rhan o'i waith craffu parhaus, gan gynnwys effeithiolrwydd y dulliau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau. Gallai'r gwaith hwn gynnwys ystyried y Strategaeth Genedlaethol ddrafft, a gyhoeddir o bosibl yn gynnar yn y Pumed Cynulliad.

Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Ymchwiliad i ddeddfwriaeth: Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

Diben yr ymchwiliad

Ym mis Chwefror 2015, aethom ati i graffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Hwn oedd y cyntaf o ddau Fil a fyddai, pe byddent yn cael eu gweithredu, yn arwain at newidiadau strwythurol sylweddol i lywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y Bil yn darparu ar gyfer uno awdurdodau lleol yn wirfoddol ac ar gyfer y gwaith paratoi y byddai angen ei wneud cyn y brif raglen uno.

Canfyddiadau

Fel rhan o'n gwaith o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, buom yn edrych ar fater ehangach diwygio llywodraeth leol, a chynnig Llywodraeth Cymru i uno'r awdurdodau presennol. Cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Hydref 2015 a gofynnwyd i'r Gweinidog ystyried a fyddai newidiadau mwy sylfaenol i ffiniau'r awdurdodau yn opsiwn gwell ac yn arwain at strwythur mwy cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol.

Gwnaethom hefyd argymhellion mewn nifer o feysydd lle'r oeddem o'r farn bod angen cryfhau darpariaethau'r Bil neu lle'r oeddem yn credu bod angen eglurhad pellach.

Yr wybodaeth ddiweddaraf ers cyhoeddi ein hadroddiad

Cafodd y Bil ei basio gan y Cynulliad ar 20 Hydref 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd 2015.

Yn dilyn ein gwaith craffu ar y Bil, aethom ati i wneud gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, sy'n rhoi darpariaeth ar waith i gwblhau'r rhaglen uno. Roedd yn cynnwys dau gynnig amgen (mapiau) ar gyfer nifer yr awdurdodau newydd (un map yn cynnwys wyth awdurdod a'r llall yn cynnwys naw awdurdod). Yr oedd hefyd yn nodi sut y byddai'r awdurdodau newydd yn gweithredu.

Cyflwynwyd adroddiad gennym ym mis Chwefror 2016, yn amlinellu ein pryderon ynghylch y canlynol:

- y diffyg cynnydd a wnaed rhwng llywodraeth leol a chenedlaethol ar y map uno terfynol;
- gallu'r awdurdodau i dalu'r costau uno ac effaith ariannol bosibl y dreth gyngor a chysoni cyflogau;
- y priodoldeb o osod dyletswyddau statudol ar gynghorwyr; a
- y gofynion cymhwysedd ar gyfer "cynghorau cymuned â chymhwysedd".

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Cyfrifoldeb ein holynydd, wrth gwrs, fydd gwneud gwaith craffu manylach ar y Bil terfynol yn y Pumed Cynulliad. Gobeithiwn y bydd ein hadroddiad, ac unrhyw ymateb dilynol gan y Gweinidog, yn helpu i lywio ei waith. Credwn y dylai goblygiadau ariannol y Bil fod yn destun craffu manwl, ac mai'r pwyllgor a fydd yn olynu'r Pwyllgor Cyllid fydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

Iaith Gymraeg

"Fel prif sefydliad democrataidd Cymru, mae dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i alluogi pob dinesydd ac Aelod Cynulliad i gael gwybodaeth am y broses ddemocrataidd, ac i gyfrannu'n llawn ati, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg."

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), Memorandwm Esboniadol



Y Gymraeg

O fewn ein cylch gwaith, rydym hefyd yn gyfrifol am faterion polisi sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae ein gweithgareddau yn y maes hwn wedi cynnwys:

- trafod Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol);
- aelodaeth y panel dethol ar gyfer penodi Comisiynydd y Gymraeg yn 2012;
- craffu ar adroddiadau blynyddol Comisiynydd y Gymraeg a gweithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- craffu'n rheolaidd ar waith Prif Weinidog Cymru o ran ei gyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys blaenoriaethau cyllideb Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Ar ôl inni drafod cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 ym mis Ionawr 2016, ysgrifennwyd at y Prif Weinidog yn mynegi pryder bod y cyllid ar gyfer y Gymraeg, unwaith eto, wedi'i leihau yng nghyllideb ddrafft y Llywodraeth.

Rydym wedi ystyried a oedd strategaeth *Bwrw Mlaen* Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2014 fel ymateb i ffigurau siomedig Cyfrifiad 2011 o ran nifer y siaradwyr Cymraeg, yn cyflawni ei hamcanion.

Gwnaethom hefyd dynnu sylw at bryderon am yr effaith y byddai'r toriadau i gyllideb Comisiynydd y Gymraeg yn ei chael ar ei gallu i gyflawni ei chyfrifoldebau statudol o dan Fesur y Gymraeg.

Materion ar gyfer y Pumed Cynulliad

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb clir i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg ac annog twf ynddi.

O ystyried y gostyngiad cyffredinol yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn ystod y Cynulliad hwn, credwn y dylai ein pwyllgor olynol barhau i fonitro a yw polisiau, strategaethau a chyllidebau'r Llywodraeth nesaf yn cyflawni'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.

Efallai y bydd am fonitro'r trefniadau cyllido parhaus ar gyfer swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn enwedig o gofio y bydd y Comisiynydd yn cyflwyno'r cylch nesaf o safonau iaith Gymraeg yn y ddwy flynedd nesaf.

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol hefyd yn dymuno ystyried a yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ateb y diben.

Edrych tuag at y Pumed Cynulliad

Yr ymchwiliadau nesaf

Wrth edrych yn ôl ar ein gwaith dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi nodi detholiad o faterion y credwn y byddai'n fuddiol i'n holynydd graffu arnynt:

Tai

- **Addasiadau i gartrefi**

Mae'r problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i addasu cartrefi yn hirsefydlog, ac ychydig iawn o gynnydd a wnaed yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i fynd ar drywydd y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru.

- **Deddf Tai (Cymru) 2014**

Cyflwynodd y Ddeddf system newydd i drwyddedu landlordiaid ac asiantaethau, a newidiodd y ddeddfwriaeth ar ddigartrefedd hefyd. Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i gynnal ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i werthuso'r modd y mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael ei roi ar waith, a'i heffaith.

- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i gynnal ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i'r modd y caiff Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ei rhoi ar waith, a'i heffaith.

Y cyfryngau, diwylliant a chwaraeon

- **Y cyfryngau a chyfathrebu**

Credwn y dylai'r Pumed Cynulliad sefydlu Pwyllgor Cyfathrebu i gryfhau'r trefniadau atebolrwydd rhwng y Cynulliad a'r cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru.

- **Chwaraeon a gweithgarwch corfforol**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno cadw golwg ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol.

- **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Os caiff y Bil Gydsyniad Brenhinol, efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i wneud ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol i'r modd y caiff Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ei rhoi ar waith, a'i heffaith.

Cymunedau a Chydraddoldeb

- **Tlodi**

Credwn y dylai archwilio effaith tlodi yng Nghymru fod yn flaenoriaeth allweddol i'r pwyllgor olynol. Yn benodol, efallai y bydd yn dymuno ystyried effaith diwygio lles a thlodi mewn gwaith ar dlodi yng Nghymru.

- **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i gynnal ymchwiliad ôl-ddeddfwriaethol ar y modd y gweithredir y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Llywodraeth Leol

- **Diwygio llywodraeth leol**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn dymuno craffu ar unrhyw raglen ddiwygio llywodraeth leol a gyflwynir gan Lywodraeth nesaf Cymru. Gallai hyn gynnwys craffu ar strwythurau arfaethedig a swyddogaethau unrhyw awdurdodau lleol a gaiff eu had-drefnu, yn ogystal â goblygiadau ariannol unrhyw raglen ad-drefnu.

Y Gymraeg

- **Ariannu'r Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol am fonitro blaenoriaethau ariannu Llywodraeth nesaf Cymru o ran y Gymraeg, a swydd Comisiynydd y Gymraeg.

- **Safonau yn y Gymraeg**

Efallai y bydd ein pwyllgor olynol yn awyddus i adolygu'r broses o gyflwyno'r gyfres nesaf o safonau yn y Gymraeg, yn ogystal â chraffu ôl-ddeddfwriaethol ar Fesur y Gymraeg 2011.